# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol / *Minutes of the Ordinary Meeting***
**13 Ionawr/13 January am 7.30yh yn Hen Ysgol Y Ferwig**

**Presennol:** / ***Present*:**

Cyng. / Cllr Dilwyn Jenkins *(Cadeirydd)*
Cyng. / Cllr Melanie Davies
Cyng. / Cllr Auriol Williams
Cyng. / Cllr Gwion Morgan
Cyng. / Cllr Jean Brown
Cyng. / Cllr Gethin Davies *(Aelod lleol y Cyngor Sir)*
Cyng. / Cllr Lyn Jones (Is-cadeirydd)
Cyng. / Cllr Mair Bell
Cyng. / Cllr Lloyd Jenkins
Mrs Delyth Phillips *(Clerc)*

1. **Croeso'r Cadeirydd / *Chairperson's welcome*: Croesawodd y cadeirydd y Cyng. Dilwyn Jenkins, bawb i'r cyfarfod gan obeithio bod pawb wedi cael Nadolig a blwyddyn newydd braf. Dymunodd iechyd da i bawb ar gyfer 2025. Mynegodd ei gydymdeimlad â'r holl deuluoedd oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar ac yn enwedig yr adeg hon o'r flwyddyn. Yn anffodus mae dau gyn gynghorydd Ferwig wedi marw dros y cyfnod. Bu Dewi Thomas (Pentre) yn gynghorydd am ryw 3 blynedd ar ddiwedd y 1990au. Hayden Lewis oedd Cadeirydd cyntaf y cyngor cymuned yn 1974 – cyn hynny roedd yn gyngor plwyf. Bu wedyn yn Gynghorydd Sir am nifer o flynyddoedd, yn gyntaf gyda Dyfed ac yna gyda Cheredigion. Roedd yn gyn-Gadeirydd Cyngor Sir Ceredigion yn ogystal â Heddlu Dyfed Powys. Bydd colled fawr ar ei ôl gan y gymuned ond yn anffodus roedd wedi dioddef afiechyd yn y blynyddoedd diwethaf. Cynhaliodd y Cyngor funud o dawelwch mewn parch tuag ato.**
The chairperson Cllr. Dilwyn Jenkins, welcomed everyone to the meeting and hoped that everyone had had a restful Christmas and new year. He wished everyone good health for 2025. He expressed his sympathy to all families who had lost loved ones recently and especially at this time of year. There are two past Councillors of Ferwig who had sadly passed away over the period. Dewi Thomas (Pentre) was a councillor for some 3 years in the late 1990'ies. Hayden Lewis was the first Chairman of the community council in 1974 – before that time it was a local council. He then became a County Councillor for several years, firstly with Dyfed and then with Ceredigion. He was a past Chairman of Ceredigion County Council as well as for Dyfed Powys Police. He will be sadly missed by the community but unfortunately had suffered ill health in recent years. The Council held a one minutes silence as a mark of respect.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb / *Apologies for absence*: Cyng. / Cllr Eurig Lloyd; Cyng. / Cllr Clive Davies**

3. **Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol / *Minutes of the previous meeting*: Cynigwyd gan y Cyng. Auriol Williams ac eilwyd gan y Cyng. Jean Brown bod cofnodion mis Rhagfyr yn gywir.**
*It was proposed by Cllr. Auriol Williams and seconded by Cllr. Jean Brown that the minutes for the December meeting be recorded as correct*

4. **Datgelu buddiannau personol/ *Declaration of personal interests*: Cyng. / Cllr Lloyd Jenkins Cynllunio A240893**

5. **Materion yn codi / *Matters arising*:**
   a) **Cinio Nadolig Yr Henoed – Cafwyd cinio llwyddiannus iawn gyda diolch i'r Ficer Wyn Maskell am arwain y canu.** *A very successful Christmas lunch was held with the Vicer Wyn Maskell leading the Christmas sing song.*
   b) **Coeden Nadolig yn Ferwig a Penparc – Diolch yn fawr iawn i'r Cyng. Gethin Davies am rhoi y coed i fyny gyda help y Cyng. Dilwyn Jenkins. Maen't wedi bod yn llwyddiant mawr arol i gwpwl o broblemau gyda y goleadau ac ati. Erbyn y flwyddyn nesaf mae tipyn o waith paratoi wedi i gwneud yn barod. Y clerc i ddanfon llythyr o ddiolch I Sand yn Gravel ym Mhenparc am y gravel i gwneud y gwaelod i ddal y coed.** Many thanks to Cllr. Gethin Davies with the help of Cllr Dilwyn Jenkins for carrying out the groundwork in putting up the trees successful. After a few teething troubles with the lights, they were very successful, and the groundwork is in place ready for next

year. The clerk to send a letter of thanks to Cardigan Sand and Gravel for the gravel that was used to make the cement.

*c)* **Cynllunio A230409 Ffynnoncyff – Cafwyd adborth gan y Cyng Gethin Davies i'r cyngor. Ymwelwyd â'r safle ddydd Llun diwethaf, y 6ed o Ionawr lle bu'r Cynghorwyr Sir yn ymweld â'r safle ac yn gallu gweld y pryderon a godwyd. Bydd y drafodaeth derfynol yn cael ei chynnal ddydd Mercher y 15fed o Ionawr lle bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar y cais. Bydd monitro'r safle yn ystyriaeth allweddol.** *Cllr Gethin Davies fed back to the council. A site visit took place last Monday the 6th of January where County Councillors visited the site and were able to see the concerns that had been raised. The final discussion will take place on Wednesday the 15th of January where a decision will be made on the application. Monitoring the site will be a key consideration.*

*d)* **Rhestr dymuniadau Ysgol Feithrin Penparc – Roedd rhestr wedi ei dderbyn gan y cyngor o rai adnoddau allweddol sydd eu hangen yn yr ysgol i gefnogi disgybl oedd wedi dechrau yn ddiweddar. Cynigiodd y Cyng Auriol Williams swm o £1,000 i'w gyfrannu ac eiliwyd gan y Cyng. Lyn jones a chytunwyd yn unfrydol.** *A list had been received by the council of some key resources needed in the school to support a pupil that had recently started. Cllr Auriol Williams proposed a sum of £1,000 to be donated which was seconded by Cllr. Lyn jones and unanimously agreed.*

**6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol/ *Requests for financial support*:**

I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.
*To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.*

**Eisteddfod Genedlaethol 2026**

**7. Cynllunio/Planning:**

| *Rhif y Cais Application No.* | *Cyfeiriad a Bwriad / Address and Purpose* | Sylwadau/Comments |
|---|---|---|
| A240893 | Helen & Geraint James<br>Eventua, Penparc, Cardigan SA43 1RE<br>Replace existing ground floor rear extension with new two storey extension | **Dim gwrthwynebiadau**<br>*No Objections* |
| A240876 | Cardigan Sand & Gravel Company Ltd<br>Oernant Fields, Penparc SA43 1RB<br>Discharge of condition 25 from planning permission A230919 | **Dim gwrthwynebiadau**<br>*No Objections* |
| A240900 | Cardigan Sand & Gravel Company Ltd<br>Oernant Fields, Penparc SA43 1RB<br>Discharge of condition 6 from planning permission A230919 | **Dim gwrthwynebiadau**<br>*No Objections* |
| A240920 | N Murphy<br>Tradewinds, Gwbert SA43 1PR<br>A timber clad, flat roof extension to the southwest elevation of an existing dwelling & associated works. Also, a proposed first floor balcony to the front principal elevation, to match the existing balcony. | **Dim gwrthwynebiadau**<br>*No Objections* |
| A240924 | Geraint Thomas Glan Thomas LTD<br>Arosfa, Tremain, Cardigan SA43 1SL<br>Proposed extension to workshop | **Dim gwrthwynebiadau**<br>*No Objections* |

| | | |
|---|---|---|
| A240958 | Cardigan Sand & Gravel Company Ltd<br>Oernant Fields, Penparc SA43 1RB<br>Discharge of condition 15 from planning permission A230919 (method statement for the control of weeds) | **Dim gwrthwynebiadau**<br>*No Objections* |
| A240908 | Chris Jenkins<br>Trewindsor Farm, Llangoedmor, Cardigan SA43 2LN<br>Conversion of existing outbuilding into a 1 bedroom holiday let, siting of traditional shepherds hut for holiday accommodation, reduction of bedrooms in previously approved barn conversion (Barn 3) and installation of new package treatment plant, drainage field and associated works. | **Nid oedd gwrthwynebiad, ond mynegwyd pryder am y ffordd hir sy'n arwain i mewn i'r eiddo gydag ychydig iawn o fannau pasio sy'n ei gwneud yn anodd pan fo peiriannau amaethyddol yn dymuno gwneud gwaith ar dir amaethyddol cyfagos. Gyda mwy o dai ar y safle, bydd mwy o draffig ffyrdd a allai achosi problemau yn y dyfodol.**<br>*There were no objections, but concern was expressed to the long road leading into the property with very few passing places which make it difficult when agricultural machines wish to carry out work on neighbouring agricultural land. With more dwellings on the site, there will be more road traffic which may cause problems in the future.* |

**8. Materion Ariannol / *Financial Matters*:**
**Biliau i'w talu / *Bills to be Paid:***

| **Dyddiad** *Date* | **Disgrifiad** *Description* | **Côd** *Code* | **Rhif y siec** *Cheque No* | **Swm (TAW)** *Sum (VAT)* |
|---|---|---|---|---|
| 31/12/24 | Cyflog Y Clerc – Clerk's Salary - Rhagfyr | A1 | 102095 | £455.17 |
| 31/12/24 | Costiau'r Clerc – Clerk's Costs | A2 & A2b | 102096 | £75.49 |
| 4/12/24 | Y Cyng. Dilwyn Jenkins – lwfans Cadeirydd ½ bl | A5 | 102097 | £250.00 |
| 11/12/24 | Cardi Building Supplied Ltd | H2 | 102098 | £36.25 (£6.04) |
| 14/12/24 | Brian Llewelyn a'I Ferched – goleadau i'r goeden | H2 | 102099 | £149.50 (24.92) |
| 30/12/24 | Y clerc – Rafl i'r henoed/Rhodd i Wyn Maskell | A27 | 102100 | £23.27 |
| 18/11/24 | John Morris – Torri porfa cae gwyrdd a golygfan ac ati | C5 & E1 | 102101 | £1515.60 (252.60) |

**Cynigiwyd gan y Cyng. Gwion Morgan ac eiliwyd gan y Cyng. Mair Bell bod y biliau uchod yn cael eu talu.**
It was proposed by Cllr Gwion Morgan and seconded by Cllr Mair Bell that the above bills be paid.

**Cyllideb 2025/2026 - angen ir ffurflen praesept fod nôl erbyn diwedd y mis. Y clerc wedi dosbarthu gwybodaeth am y cyllideb gyda rhai awgrymiadau i'r cynghorwyr i drafod. Yn dilyn trafodaeth ar godi costau a chynghorau cymuned yn gorfod cymryd drosodd mwy o gyfrifoldebau am adnoddau mewn cymunedau megis llochesi bws, cynigwyd gan y Cyng Auriol Williams ac eiliwyd gan y Cyng.**

**Lloyd Jenkins i ofyn am godiad o 10% yn y praesept. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol.**
Budget2025/2026 – Forms to be returned before the end of January. Clerk distributed budget documentation before the meeting for consultation. After a discussion on raising costs and community councils having to take over more responsibilities for resources in communities such as bus shelters, it was proposed by Cllr Auriol Williams and seconded by Cllr. Lloyd Jenkins to ask for a 10% rise in the precept. This was unanimously agreed on.

**Materion ariannol eraill / Other Financial Matters**:

**2023 -24 Cwblhau Archwiliad - cafwyd trafodaeth ar yr adroddiad archwilio llawn a amlygodd rai materion yr oedd angen mynd i'r afael â hwy a'u cywiro o fewn y flwyddyn ariannol nesaf. Roedd llawer o'r materion a godwyd yn deillio o systemau sydd wedi'u sefydlu efallai y bydd angen mynd i'r afael â nhw a'u moderneiddio i gyd-fynd ag argymhellion mwy diweddar. Penderfynwyd rhoi copi o adroddiad yr Archwiliwr i Mr Ken Griffiths (Archwiliwr Mewnol) a Mrs Eleri Maskell (Clerc Cyngor Tref Aberteifi) i edrych arno yn y lle cyntaf cyn ceisio unrhyw gyngor arall. Hefyd angen dangos i Antur Teifi gan fod yna cwpwl o holiadau yng nghlyn ar PAYE ac ati.**

*Completion of Audit 2023-24- a discussion was held on the full audit report which highlighted some issues that needed to be addressed and corrected within the next financial year. Many of the issues raised were from systems in place that may need to be addressed and modernised to keep in line with more recent recommendations. It was decided to give a copy of the Auditors report to Mr Ken Griffiths (Internal Auditor) and Mrs Eleri Maskell (Cardigan Town Council Clerk) to look at in the first instance before seeking any other advice and Antur Teifi as there are a few queries regarding PAYE etc.*

| | Dyddiad<br>Date | Disgrifiad<br>Description | Swm<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Derbyniadau**<br>Income | 10/12/24 | Llog i'r cyfrif/Interest on account | 26.30 |
| | | | |
| | | | |
| **Balans yn y Banc**<br>Balances at the Bank | 10/12/24 | **Cyfri Rhoelwr Arian Busnes**<br>Business Money Manager | 17,184.65 |
| | 10/12/24 | **Cyfri Banc Elusen**<br>Charity Bank Account | 4,168.51 |
| **Taliadau Banc am y Mis**<br>Bank Charges for the month | 10/12/24 | | 8.20 |

**9. Gohebiaeth / *Correspondence:***

| Rhif | **WRTH BWY**<br>FROM WHO | **MANYLION**<br>DETAILS | **PENDERFYNIAD**<br>OUTCOME |
|---|---|---|---|
| 109 | **Dana Jones Cyngor Sir Ceredigion** | **Hyfforddiant ar y Cod Ymddigiad 11/02/25: 6 – 7.30 yh**<br>*Code of Conduct Training – 11/02/25; 6 – 7.30 pm* | **Dosbarthwyd trwy ebost**<br>3/12/24<br>Distributed via email<br>**Trafodwyd y hyfforddiant a cytynwyd fyddau yn syniad da yw cwbwlhau gydan gilydd. Felly cytynwyd i'w uno gyda cyfarfod mis Chwefror. Felly fydd y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth 11 o Chwefror yn cychwyn am 6 yh i gwbwlhau y hyfforddiant ac fydd y cyfarfod cyngor yn dilyn am 7.45 yh. Mae yna croeso i bawb cwbwlhau yr** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **hyfforddiant adre hefyd.**<br>*The training was discussed, and it was felt it would be beneficial to complete it as a group if possible. It was then decided to move the next council meeting to the same evening. Therefore, the next meeting will be on Tuesday 11 February from 6 pm onwards to complete the training followed by the council meeting at 7.45 pm @ Hen Ysgol y Ferwig. Councillors could also complete the training at home if they wish.* |
| 110 | **Rhodri Llwyd<br>Cyngor Sir Ceredigion** | **System bwrcasu ddynamig ar gyfer Darparu Gwasanaethau Clirio Eira Atodol ac Unrhyw Wasanaethau ARgyfwng Perthnasol eraill**<br>*Dynamic purchasing system for the provision of Supplementary Snow Clearing Services and other Emergency Related Services* | **Dosbarthwyd trwy ebost**<br>3/12/24<br>Distributed via email<br>**Nodwyd**<br>*Noted* |
| 111 | **Lauren Meynell<br>Heddlu Dyfed Powys Police** | **Comisiynydd yr Heddly a Throseddu'n Lansio Ymgynghoriad ar y gyllideb Blismona ar gyfer 2025/26**<br>*Police & Crime Commissioner Launches Policing Budget Consultation for 2025/26* | **Dosbarthwyd trwy ebost**<br>10/12/24<br>Distributed via email<br>**Nodwyd**<br>*Noted* |
| 112 | **Rael Mulcahy<br>Un Llais cymru<br>One Voice Wales** | **Adroddiad gwiriad iechyd digidol**<br>*Digital Health Check Report* | **Dosbarthwyd trwy ebost**<br>12/12/24<br>Distributed via email<br>**Nodwyd**<br>*Noted* |
| 113 | **Tracy Gilmartin<br>Un Llais cymru<br>One Voice Wales** | **Diwrnod o fyfyrdod ar gyfer pandemig Covid - 19 Mawrth 2025**<br>*Covid 19 Reflection Day – 9th March 2025* | **Dosbarthwyd trwy ebost**<br>12/12/24<br>Distributed via email<br>**Nodwyd**<br>*Noted* |
| 114 | **Rhydian Fitter<br>Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu**<br>*Communications & Engagement manager<br>Boundary Commission for Wales* | **Arolwg o Etholaethau'r Senedd**<br>*Review of Senedd Constituencies* | **Dosbarthwyd trwy ebost**<br>17/12/24<br>Distributed via email<br>**Nodwyd**<br>*Noted* |
| 115 | **Ceredigion HPW Streetworks** | **Cau Ffordd Dros Dro – C1175 Blaenannerch, Aberteifi – 22/01/2025**<br>*Temporary Road Closure – C1175 Blaenannerch, Aberteifi – 22/01/25* | **Dosbarthwyd trwy ebost**<br>17/12/24<br>Distributed via email<br>**Nodwyd**<br>*Noted* |
| 116 | **Deryck Evans** | **2023 -24 Cwblhau Archwiliad** | **Dosbarthwyd trwy ebost** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Archwiliad Cymru - Audit Wales** | *Completion of Audit 2023-24* | 18/12/24<br>Distributed via email<br>**Trafodwyd o dan materion ariannol eraill**<br>*Discussed under other financial maters* |
| 117 | **Ceredigion CE Democracy** | **Cofnodion Cyfarfod Cygnor Sir Ceredigion a Chynghorau Thref a Chymuned – De'r Sir 28.11.24**<br>*Minutes of the meeting Ceredigion County Council and Town & Community Councils – South 28.11.24* | **Dosbarthwyd trwy ebost**<br>**31/12/24**<br>**Distributed via email**<br>**Nodwyd**<br>*Noted* |
| 118 | **Gwasanaeth Etholiadol Electoral Services** | **Adolygu ein cofnodion ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned**<br>*Reviewing records for Town & Community Councils* | **Dosbarthwyd trwy ebost**<br>05/01/25<br>Distributed via email<br>**Nodwyd**<br>*Noted* |
| 119 | **Hywel Dda NHS Engagement dept** | **Swydd Wag am Aelod Annibynnol (Cymuned)**<br>*Vacancy – Independent Member (Community)* | **Dosbarthwyd trwy ebost**<br>05/01/25<br>Distributed via email<br>**Nodwyd**<br>*Noted* |
| 120 | **Gwenllian Carr Eisteddfod Genedlaethol** | **Cais am Rhodd Ariannol**<br>**Application for financial support** | **Nodwyd**<br>*Noted* |

***10.*** **Materion Eraill /** ***Other Matters:***

*a)* **Lloches bws newydd yn Penparc wedi cael ei leoli gan y Cyngor Sir** *– a new bus shelter has been installed by the County Council at Penparc.*

*b)* **Braf clywed bod Arwyn Reed (cyfreithiwr) wedi bod mewn cysylltiad ag Ymddiriedolwyr Ystafell Berkely ynglŷn â chyfreithlondeb y darn o dir sydd angen ei ddidoli.** *It is pleasing to hear that Arwyn Reed (solicitor) has been in contact with the Trustees of Ystafell Berkely regarding the legalities of the piece of land that needs to be sorted.*

*c)* **Mae yna tipyn o traferthion dwr ar y rhewl gan bod gwteri wedi llewni – clerc i danfon mewn ar 'clic' – lawr yn Fewrig, o gwmpas Pile ac hefyd ger Tygwyn.** *There are several issues with flooding/water on the road due to blocked drains that need to be clearer – in Verwig, near Pile and Tygwyn – Clerk to send in via Clic.*

*d)* **Pryd mae'r gwaith trwshio yn cael i cwbwlhau lawr yn Gwbert – ar Coronation Drive. Mae'r niwed wedi cael i gwneud ers haf diwethaf. – Clerc i holi.** *When is the repair work being completed on the railings down in Gwbert which were damaged back in the summer – Clerk to enquire.*

*e)* **Mae hefyd angen gwaith trwshio cael i gwneud ar y llwybr sydd yn mynd o flaen y 'Flat Rock' –** ***clercil tynnu lluniau a danfon mewn ar Clic.*** *There is also some repair work to be done on the path in front of the Flat Rock, clerk to take photographs and send in on Clic.*

**11. Adroddiad y Cynghorydd Sir, y Cyng. Clive Davies** ***County Councillor's Report***

- **Mynychu a darllen ar gyfer Gwasanaeth Carolau Aber-porth**
- **Cyfarfod prosiect Arddangoswr Afon Teifi ar gyfer y gwaith parhaus ar gyfer iechyd ac ecoleg yr afon**
- **Helpu yng nghinio Nadolig cymunedol Aber-porth**
- **Rhan o rodd grŵp o £800 tuag at Fanc Bwyd Aberteifi**

**• Ymweld â gwasanaeth galw heibio cymunedol Connector am unrhyw bryderon ward**
**• Mynychu gwobrau busnes a chymuned Ceredigion**
**• Ail weithdy cyllideb ar gyfer y sir, edrych ar ganlyniad ac effaith cyllideb Llywodraeth Cymru**
**• Wedi'i gefnogi lle bo modd o ganlyniad Storm Darrah**
**• Mynychu bore coffi Penparc**
**• Ymchwiliad llwybr ceffylau ar berchenogaeth tir**
**• Newid llwybr troed**
**• Papur i'r cabinet ar brosiectau Llwybrau**
**• Llythyr at ysgrifennydd y cabinet Huw I-D ar Iechyd Afonydd a chyllid yn y dyfodol , yn gofyn am sicrwydd ynghylch y polisi parhaus.**
**• Holi ynghylch amseriad llythyr cynnig y gronfa bontio gan Lywodraeth y DU, ers hynny wedi derbyn amlinelliad o'r gronfa. Mae Ceredigion i dderbyn toriad o 42% yn hytrach na 40% oherwydd ymyrraeth Llywodraeth Cymru ar flaenoriaethu Cymoedd De Cymru fydd yn derbyn y 2% ychwanegol.**
**• Adroddwyd bod draeniad wedi torri yn ardal y Ferwig a thyllau yn y ffyrdd yn Aber-porth**
**• Ni chytunwyd ar y marciau ffordd a adroddwyd o dan unrhyw orchymyn traffig.**
**• Trafodwyd y cynnig i greu tîm gorfodi i gefnogi'r camddefnydd cynyddol o gynllunio ar draws y sir.**
**• Crynhoi taenlen o amcangyfrif o gostau i glercod ar draws yr ardal weithio arni tuag at flwyddyn bontio ar gyfer darparu toiledau cyhoeddus.**
**• Ymchwiliad y BBC i gynnig ar gyfer newid yn y gyfraith ar gyfer mynwentydd a esgeuluswyd i fod yn gyfrifoldeb awdurdodau lleol heb unrhyw gyllideb ychwanegol i'w chynnal.**
*• Attend and read for the Aberporth Carol Service*
*• Teifi River Demonstrator project meeting for the ongoing work for the health and ecology of the river*
*• Helping at the Aberporth community Christmas dinner*
*• Part of a group donation of £800 towards the Cardigan Food Bank*
*• Visit the Connector community drop-in service for any ward concerns*
*• Attend Ceredigion business and community awards*
*• Second budget workshop for the county, looking at the result and impact of the Welsh Government's budget*
*• Supported where possible because of Storm Darrah*
*• Attend the Penparc coffee morning*
*• A bridleway investigation into land ownership*
*• Change footpath*
*• Paper to the cabinet on Pathways projects*
*• Letter to cabinet secretary Huw I-D on River Health and future funding, asking for certainty about the ongoing policy.*
*• Inquiring about the timing of the bridging fund offer letter from the UK Government, since received an outline of the fund. Ceredigion is to receive a cut of 42% rather than 40% because Welsh Government intervention on prioritizing the South Wales Valleys will receive the 2% extra.*
*• It was reported that drainage was broken in the Ferwig area and potholes in the roads in Aber-porth*
*• The road markings reported under any traffic order were not agreed.*
*• The proposal to create an enforcement team to support the growing misuse of planning across the county was discussed.*
*• Compile a spreadsheet of estimated costs for clerks across the area to work on for around a year bridging for the provision of public toilets.*
*• The BBC's investigation into a proposal for a change in the law for neglected cemeteries to be the responsibility of local authorities with no additional budget to support them.*

***11.*** **Adroddiad y Cynghorydd Sir, y Cyng. Gethin Davies** ***County Councillor's Report***

**Blwyddyn newydd dda i bawb gan gobeithio bo pawb wedi cael gwyliau da. Roedd y storom ar ddechrau mis Rhagfyr wedi achosi dipyn o broblemau yn yr ardal yn enwedig yn Aberporth ond braf oedd gweld pawb yn tynnu at ei gilydd ac edrych ar ol pawb. Buodd y Neuadd yn Aberporth**

**yn brysur yn darparu bwyd a diod twym i unrhyw un odd angen bwyd cynnes. Mae nifer o gyfarfodydd wedi bod yn ymwneud a cynllunio ar cyllideb yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mae'n edrych fel bydd yna toriad arall yn y cyllideb yn y dyfodol. Braf oedd cael rhoi y coed Nadolig i fyny yn Penparc a Ferwig a gweld pawb yn mwynhau nhw.** *Happy new year to everyone, I hope everyone had a good holiday. The storm at the beginning of December had caused quite a few problems in the area, especially in Aberporth, but it was nice to see everyone pulling together and looking at everyone's wellbeing. The Hall in Aberporth was busy providing food and hot drinks to anyone who needed a hot meal. There have been several meetings related to Planning and the budget in recent weeks. It looks like there will be another cut in the budget in the future. It was nice to put the Christmas trees up in Penparc and Ferwig and see everyone enjoying them.*

**13. Dyddiad y cyfarfod nesaf / *Date of next meeting***:

**Nos Fawrth 11 Chwefror yn Hen Ysgol Y Ferwig/Tuesday 11 February at Hen Ysgol Y Ferwig**

**Cyfarfodydd y Cyngor am 2024: YB – Ystafell Berkely HYF – Hen Ysgol y Ferwig**